# CYNLLUN MARCIO TAG

**HAF 2016**

**ASTUDIO'R CYFRYNGAU - MS4:**
**Y CYFRYNGAU - TESTUN, DIWYDIANT A CHYNULLEIDFA**
**1294/01**

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2016. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

**ADVANCED SUBSIDIARY/ADVANCED MEDIA STUDIES**

**MS4: MEDIA - TEXT, INDUSTRY AND AUDIENCE**

## Cyffredinol

### Cyfarfod yr Arholwyr

Cynhelir Cyfarfod yr Arholwyr ar **ddydd Mercher, 15 Mehefin 2016** yn **Novotel, Schooner Way, Atlantic Wharf, Caerdydd CF10 4RT,** yn dechrau am **9.30 am.**

*Cyn y cyfarfod, dylech farcio dros dro (mewn pensil)* ***o leiaf 10 sgript*** *i ffurfio syniad o ystod yr atebion. Dewch â'r sgriptiau hyn gyda chi i'r cyfarfod ynghyd â rhestr gryno o unrhyw faterion arholi maen nhw'n eu codi yn eich barn chi.*

### Cofnodi Marciau

Rhaid i'r holl farcio fod mewn coch. Rhaid bod tystiolaeth o farcio ar bob tudalen a ddefnyddiwyd gan ymgeisydd. Rhaid cofnodi'r marc ar gyfer pob cwestiwn ar yr ymyl dde ac yna ei drosglwyddo i'r grid ar glawr blaen y llyfr atebion.

### Anodi

Ar ddiwedd pob ateb dylai fod sylw byr i gefnogi'r marc a roddwyd. Gofynnir nawr yn ffurfiol i arholwyr anodi yn ymylon yr ateb, gan ddefnyddio byrfoddau os dymunir, fel ei bod hi'n glir sut y cyrhaeddwyd y marc terfynol. Dylai ticiau ymwneud â phwyntiau/mewnwelediadau penodol, yn hytrach na dangos bod y deunydd wedi'i ddarllen yn unig. Dylai pob sylw fod yn gysylltiedig â'r meini prawf. Dylid cofio wrth gwrs bod canolfannau yn aml yn gofyn am sgriptiau wedi'u marcio.

### Cyfeirio at yr Uwch Arholwr

Os oes gennych am unrhyw reswm broblemau arbennig wrth farcio sgript, boed hynny oherwydd dull ateb anarferol neu rywbeth mor gyffredin â llawysgrifen, dylech naill ai gysylltu â'r Uwch Arholwr/Arweinydd Tîm ynghylch sut i fynd yn eich blaen, neu ysgrifennu ar y clawr blaen 'Cyfeirio at UA/*Refer to PE*' ac **e-bostio/anfon nodyn eglurhaol ar wahân at y swyddog pwnc ar ddiwedd y cyfnod marcio**. Bydd hyn yn sicrhau yr adolygir y sgript.

### Mewnbynnu Marciau yn Electronig a Dychwelyd Sgriptiau

Dylai'r marciau i gyd gael eu cofnodi ar-lein erbyn **dydd Iau, 7 Gorffennaf 2016** a dylai sgriptiau wedi'u marcio gael eu **dychwelyd i CBAC (Trefforest) erbyn yr un dyddiad.** Os byddwch am unrhyw reswm yn rhagweld problemau ynghylch cwrdd â'r terfyn amser hwn, cysylltwch â'r Prif Arholwr neu'r Swyddog Pwnc ar unwaith. Dychwelir **sgriptiau** yn eu hamlenni canolfan i **CBAC** yn **Nhrefforest** drwy *Parcelforce*.

© WJEC CBAC Ltd.

Gan na ddefnyddir ffracisynau, noder mai *canllawiau* yn unig yw'r rhifau a ddefnyddir i gyrraedd lefelau ar gyfer y ddau Amcan Asesu a'u bod wedi'u rhoi mewn cromfachau sgwâr […]. Dylid penderfynu ar **farc terfynol** ymgeisydd **o fewn lefel** ar sail y **cyfanswm allan o 30** fel y nodir isod.

Gweler y grid marcio generig drosodd.

© WJEC CBAC Ltd.

| Lefel/Marciau | AA1<br>Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau, cyd-destunau a thrafodaethau beirniadol y cyfryngau | AA2<br>Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth wrth ddadansoddi cynhyrchion a phrosesau'r cyfryngau, ac wrth werthuso eu gwaith ymarferol eu hunain, i ddangos sut caiff ystyron ac ymatebion eu creu |
|---|---|---|
| **Lefel 1: 0-11** | Ymateb sylfaenol, synnwyr cyffredin. Dealltwriaeth arwynebol o'r testunau a astudiwyd a'u cyd-destunau o ran y diwydiant a'r gynulleidfa. Mae manylion amherthnasol yn nodweddu'r ymateb.<br>[0-7] | Bydd y dadansoddiad yn wan ac â diffyg dyfnder, yn tueddu i fod yn gyffredinol heb unrhyw enghreifftiau i'w gefnogi.<br>[0-3] |
| **Lefel 2: 12-17**<br>**(12-14)** | Ar ben isaf y lefel hon, bydd dechreuadau ymateb perthnasol ond bydd diffyg canolbwynt. Bydd gwybodaeth sylfaenol o'u cyd-destunau o ran y diwydiant a'r/neu'r gynulleidfa yn amlwg. | Ar ben isaf y lefel hon, bydd dadansoddiad sylfaenol ond anghyson o'r berthynas rhwng y testun, y diwydiant a'r gynulleidfa (fel y bo'n briodol). Bydd unrhyw ddadansoddi yn debygol o fod wedi'i fynegi'n syml gan ddangos dealltwriaeth sylfaenol o'r modd y caiff ystyron ac ymatebion eu creu. |
| **(15-17)** | Ar ben uchaf y lefel hon, bydd safbwynt yn dod i'r amlwg a gall enghreifftiau gael eu defnyddio'n fwy perthnasol. Mae atebion yn debygol o fod yn fwy disgrifiadol.<br>[8-11] | Ar ben uchaf y lefel hon, bydd y dadansoddiad o'r berthynas rhwng y testun, y diwydiant a'r gynulleidfa (fel y bo'n briodol) yn dueddol o fod yn ddisgrifiadol. Bydd dealltwriaeth o'r modd y caiff ystyron ac ymatebion eu creu yn amlwg.<br>[4-5] |
| **Lefel 3: 18-23**<br>**(18-20)** | Ar ben isaf y lefel hon, bydd ymateb cadarn sy'n dangos gwybodaeth a/neu ddealltwriaeth o'r testunau a'u cyd-destunau o ran y diwydiant a'r gynulleidfa. | Ar ben isaf y lefel hon, bydd dadansoddiad cadarn o'r berthynas rhwng y testun, y diwydiant a'r gynulleidfa (fel y bo'n briodol). Bydd dealltwriaeth gadarn o'r modd y caiff ystyron ac ymatebion eu creu yn amlwg. |
| **(21-23)** | Ar ben uchaf y lefel hon, dangosir dealltwriaeth dda o destunau, eu cyd-destunau o ran y diwydiant a'r/neu'r gynulleidfa drwy enghreifftiau perthnasol a manwl ynghyd â gwneud defnydd priodol o dermau perthnasol y cyfryngau.<br>[12-15] | Ar ben uchaf y lefel hon, bydd dealltwriaeth dda o'r modd y caiff ystyron ac ymatebion eu creu.<br>[6-7] |
| **Lefel 4: 24-30**<br>**(24-26)** | Ar ben isaf y lefel hon, bydd dealltwriaeth dda iawn o destunau cyfryngol, eu cyd-destunau o ran y diwydiant a'r/neu'r gynulleidfa. Bydd yr enghreifftiau a ddefnyddir yn fanwl ac yn dangos safbwynt. Gwneir defnydd priodol o dermau perthnasol y cyfryngau. | Ar ben isaf y lefel hon, bydd dadansoddiad da iawn o'r berthynas rhwng y testun, y diwydiant a'r gynulleidfa (fel y bo'n briodol). Felly hefyd, bydd dealltwriaeth dda iawn o'r modd y caiff ystyron ac ymatebion eu creu. |
| **(27-30)** | Ar ben uchaf y lefel hon, bydd dealltwriaeth soffistigedig o destunau cyfryngol, eu cyd-destunau o ran y diwydiant a'r/neu'r gynulleidfa. Bydd yr enghreifftiau a ddefnyddir yn fanwl, yn gydlynol ac yn arwain at safbwynt wedi'i sefydlu'n dda. Gwneir defnydd priodol iawn o dermau perthnasol y cyfryngau.<br>[16-20] | Ar ben uchaf y lefel hon, bydd dadansoddiad soffistigedig o'r berthynas rhwng y testun, y diwydiant a'r gynulleidfa (fel y bo'n briodol). Felly hefyd, bydd dealltwriaeth soffistigedig o'r modd y caiff ystyron ac ymatebion eu creu.<br>[8-10] |

© WJEC CBAC Ltd.

## MS4: Cynllun marcio sy'n benodol i'r cwestiwn

**Noder**: ***Ar gyfer pob cwestiwn, bydd yr atebion yn ddibynnol ar y diwydiant a ddewisir.***

Bydd canolfannau wedi astudio diwydiannau gwahanol a defnyddio amrywiaeth o brif destunau gwahanol gyda'u hymgeiswyr. Cyfrifoldeb yr arholwr yw sicrhau bod yr ymgeiswyr yn gywir o ran y wybodaeth ffeithiol a ddarparant ond cadw meddwl agored ynghylch y dulliau gwahanol y gall ymgeiswyr eu defnyddio i ymdrin â'r cwestiynau. Nid oes atebion cywir nac anghywir (ar wahân i fanylion ffeithiol) ac mae'n debygol y bydd amrywiaeth o atebion i'r cwestiynau – mae hynny'n gwbl dderbyniol a rhaid ystyried pob ateb yn unigol. Disgwylir i ymgeiswyr gyfeirio at **dri** thestun ym mhob ateb ond ni ddisgwylir yr ymdrinnir yn gyfartal â'r testunau y cyfeirir atynt. *Os na fyddan nhw'n cyfeirio at dri thestun yn eu hateb gweler y nodyn isod ynghylch torri cyfarwyddyd.* Efallai na fydd ymgeiswyr gwannach yn cyfeirio at dri thestun a gall rhai ymgeiswyr gyfeirio at fwy na thri thestun – bydd angen marcio'r atebion hyn yn ôl rhinweddau'r ateb unigol a rhoddir mwy o arweiniad am hyn yn ystod cynadleddau'r arholwyr.

Dyfernir marciau i ymgeiswyr ar gyfer pob un o'r amcanion asesu. Mae angen i farcwyr sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu gosod o fewn y lefelau cywir ac yn cael marciau yn unol â hynny.

Mae sawl disgrifydd o fewn band marciau ac nid oes disgwyl i bob un fod yn berthnasol i'r un graddau i ateb penodol. Dylai arholwyr felly ddechrau ar y band marciau isaf a gweithio i fyny i ddewis yr un sy'n disgrifio'n fwyaf cywir yr ateb yn gyffredinol.

I ddewis marc o fewn band, dylai arholwyr benderfynu a yw'r ateb o'r braidd yn cwrdd â'r disgrifwyr (marciau isaf), yn cwrdd â'r disgrifwyr yn ddigonol (marciau canol), neu'n cwrdd â'r disgrifwyr yn argyhoeddiadol (marciau uchaf).

Mae'r cynllun marcio hwn sy'n benodol i'r cwestiwn yn cynnig pwyntiau y gall ymgeiswyr eu cynnwys yn eu hatebion. Rhaid ei **ddefnyddio ar y cyd â'r grid uchod.** Atgoffir arholwyr, fodd bynnag, nad yw'n rhestr ddiffiniol ac y dylent fod â meddwl agored a mynd i'r afael â'r hyn y mae'r ymgeiswyr wedi'i ysgrifennu. **Rhaid** i atebion perthnasol, sy'n ymdrin â deunydd nad yw wedi'i gynnwys isod, gael eu gwobrwyo ar sail teilyngdod. Gan y bydd canolfannau wedi dewis amrywiaeth eang o destunau i'w hastudio, mae'n debygol y bydd amrywiaeth o ddulliau o ymdrin â'r cwestiynau. Mae hynny'n gwbl dderbyniol a rhaid ystyried pob ateb yn unigol.

### Torri Cyfarwyddyd

Mae'n ofyniad ar gyfer yr uned hon bod ymgeiswyr yn cyfeirio at **dri** phrif destun ym mhob un o'u hatebion. Os bydd ymgeiswyr yn cyfeirio at **lai** na thri testun, gwneir yr addasiadau canlynol:

| | |
|---|---|
| **Cyfeirio at ddau destun** | - **3** |
| **Cyfeirio at un testun neu ddim testun** | - **5** |

Bydd y sylwadau sy'n cyfiawnhau'r marc ar ddiwedd yr ateb yn dangos yr addasiad, bydd clawr blaen y sgript yn dangos hynny hefyd.

© WJEC CBAC Ltd.

## ADRAN A: TESTUN

*Atebwch* **un** *cwestiwn o'r adran hon.*

**A1. "Mae cynrychioliadau'r cyfryngau o bobl yn aml yn or-syml". Pa mor wir yw hyn o'r cynrychioliadau o bobl yn eich tri phrif destun?** **[30]**

Mae'r cwestiwn hwn yn gwahodd barn bersonol (mae angen i hon fod yn gydlynol a chael ei chefnogi gan enghreifftiau), ond mae hefyd yn gwahodd ymgeiswyr i drafod lluniad cynrychioliadau yn eu prif destunau. Efallai bydd ymgeiswyr hefyd yn trafod unrhyw agwedd ar 'bobl' a 'chynrychioliad'. Er enghraifft rhywedd, ethnigrwydd, anabledd, ieuenctid ayb.

Gall pwyntiau yr ymdrinnir â nhw gynnwys cyfeirio at y canlynol:
- Dethol, llunio a chyfryngu
- Y berthynas rhwng y naratif a'r cynrychioliad; agendas
- Cymeriadau, rolau ac agweddau
- Lluniad trwy godau technegol
- Edrychiad – codau gwisg, iaith y corff, dull cyfarch
- Stereoteipiau, cynrychioliadau traddodiadol neu anghonfensiynol
- Theori fel y bo'n briodol – er enghraifft Mulvey, Alvarado

**A2. "Mae naratifau yn gyffredinol yn dilyn strwythur llinol". Trafodwch gan gyfeirio at eich tri phrif destun*.*** **[30]**

Mae 'naratif' yn cyfuno plot/stori a'r ffordd mae'n cael ei ddweud – felly efallai bydd ymgeiswyr y graddau uchaf yn cyfeirio at y ffordd mae'r naratif wedi cael ei *lunio* yn eu testunau dewisol – o ran *genre* a disgwyliadau cynulleidfa. Efallai bydd ymgeiswyr y graddau isaf yn disgrifio strwythur y naratif yn eu testunau dewisol.

Gall pwyntiau yr ymdrinnir â nhw gynnwys cyfeirio at y canlynol:
- Damcaniaethau – er enghraifft Todorov, Propp, Levi Strauss, Goffman
- Arddulliau naratif – er enghraifft aflinol, cylchol, aml-linynnol, hyblyg, agored, caeedig
- Defnyddio ôl-fflachiau, gofod ac amser, achos ac effaith
- Safbwynt
- Cysylltiadau â *genre*, cymeriad, disgwyliadau cynulleidfa
- Cysylltiadau â chodau naratif – e.e. technegol, enigma, clywedol
- Mewn print: lluniad/strwythur drwy linellau clawr, penawdau, iaith, capsiynau a chodau ysgrifenedig
- Mewn gemau: naratoleg/lwdoleg
- Cysylltiadau perthnasol â phleser – e.e. addewid o ddiweddglo, gêm wybyddol, disgwyliadau'r gynulleidfa a chyflawni'r disgwyliadau hynny

© WJEC CBAC Ltd.

## ADRAN B: DIWYDIANT A CHYNULLEIDFA

*Atebwch* **ddau** *gwestiwn o'r adran hon,* gan ddefnyddio diwydiant cyfryngau gwahanol ar gyfer pob cwestiwn.

**B1. Trafodwch y ffyrdd gwahanol mae cynulleidfaoedd yn cael eu lleoli gan eich tri phrif destun. [30]**

Mae'r cwestiwn hwn yn gwahodd ymgeiswyr i ystyried cynnwys y testunau maen nhw wedi'u hastudio mewn perthynas â lleoli cynulleidfaoedd. Efallai bydd rhai diffiniadau o 'leoli cynulleidfa' – sy'n dderbyniol a dylid ei farcio ar sail teilyngdod. Efallai bydd ymgeiswyr yn ystyried sut mae testunau'n cael eu hamgodio er mwyn annog dehongliadau dewisol a'r ffyrdd y caiff cynulleidfaoedd eu lleoli i dderbyn hyn. Efallai bydd ymgeiswyr yn cyfeirio at y canlynol:

- Dull cyfarch
- Damcaniaeth Sylliad Gwrywod (Mulvey)
- Camera, codau technegol, saethiadau safbwynt ayb
- Stuart Hall: ideolegau, dehongliadau dewisol ayb
- Naratif – plot
- Y defnyddiwr yn cael ei gynnwys; rhyngweithio
- Diwylliant lleoledig
- Sêr a chymeriadau
- Dyfeisiau *genre*
- Apêl weledol/ uniongyrchol testunau print
- Defnyddio adroddwr/trosleisio

© WJEC CBAC Ltd.

**B2.** **Mae pob testun cyfryngol yn rhwym wrth reoleiddio. Sut mae rheoleiddio wedi effeithio ar eich tri phrif destun? [30]**

Bydd angen i ymgeiswyr wybod sut mae eu diwydiant dewisol yn cael ei reoleiddio a rhoi sylwadau am sut mae rheoleiddio wedi cael effaith ar y testunau maen nhw wedi'u hastudio. Efallai nad yw'r testunau wedi bod yn ddadleuol ond byddan nhw i gyd wedi gorfod cadw at god y rheoleiddiwr – felly gall fod angen rhywfaint o drafod rhannau perthnasol o'r cod. Yn gyffredinol, mae angen i destunau cyfryngol gadw at godau ymarfer ac felly gall rheoleiddio effeithio ar strwythur testunau, eu cynnwys, eu lleoliad/amserlen ayb.

Mae'r canlynol yn cynnig trosolwg byr ar y rheoleiddwyr ar gyfer pob diwydiant.

| | | | |
|---|---|---|---|
| TELEDU:<br>• *OFCOM*<br>• Cod darlledu<br>• Bwrdd y BBC<br>• Cyfrifoldebau cyfreithiol<br>• Materion trobwynt | RADIO:<br>• *OFCOM*<br>• Cod darlledu<br>• Bwrdd y BBC<br>• Cyfrifoldebau cyfreithiol | FFILM:<br>• Dosbarthiad y *BBFC*<br>• Rhesymau dros dystysgrifau<br>• Rheolyddion gwahanol mewn gwledydd eraill<br>• Tystysgrifau *DVD*<br>• Yn monitro ac yn ymateb i gwynion | CERDDORIAETH:<br>• Hunanreoleiddio i raddau helaeth<br>• Cyfyngiadau cyfreithiol ym meysydd hawlfraint, trwyddedu a lawrlwytho<br>• Sticeri cynghori rhieni<br>• BBFC – fideos cerddoriaeth |
| PAPURAU NEWYDD:<br>• Leveson<br>• Siarter Frenhinol<br>• *Ipso*<br>• Cod Ymarfer Golygyddion<br>• Dadleuon hunanreoleiddio<br>• Dulliau gweithredu cwynion papurau newydd unigol<br>• Cyfyngiadau cyfreithiol e.e. deddfau enllib | CYLCHGRONAU:<br>• *Ipso*<br>• Cod Ymarfer Golygyddion<br>• Cylchgronau unigol yn monitro ac yn ymateb i gwynion<br>• Cyfyngiadau cyfreithiol e.e. deddfau enllib | HYSBYSEBU:<br>• Hunanreoleiddio<br>• Awdurdod Safonau Hysbysebu (*ASA*)<br>• Yn gweithredu yn unol â Chod *CAP* (Cod ymarfer hysbysebu)<br>• Yn monitro ac yn ymateb i gwynion<br>• *Clearcast* – gwasanaeth cyn darlledu<br>• Cyfyngiadau cyfreithiol e.e. Deddf Disgrifiadau Masnach | GEMAU CYFRIFIADUROL:<br>• Hunanreoleiddio<br>• *BBFC* a *PEGI*<br>• Mae'r *BBFC* yn dosbarthu unrhyw gêm sy'n dangos trais, rhyw ayb ac yn gallu rhoi dosbarthiadau 15 neu 18<br>• Rheoleiddir gemau eraill gan y system *PEGI* – system dosbarthiadau gwirfoddol holl-Ewropeaidd |

© WJEC CBAC Ltd.

**B3. Archwiliwch y ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar gynhyrchu eich tri phrif destun. [30]**

Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn i ymgeiswyr am wybodaeth ffeithiol. Yn achos ymgeiswyr y graddau uchaf chwiliwch am fanylder yn hytrach na phwyntiau generig a all nodweddu atebion ymgeiswyr gallu isaf. Dylai ymgeiswyr y graddau uchaf hefyd fynd i'r afael ag "archwiliwch".

Mae'r canlynol yn rhai pwyntiau generig y gallai ymgeiswyr eu gwneud mewn perthynas â ffactorau sy'n dylanwadu ar gynhyrchu ar gyfer pob diwydiant.

| | |
|---|---|
| TELEDU:<br>• Cyd-destun sefydliadol:<br>  - Darlledwr gwasanaeth cyhoeddus/masnachol<br>  - Cwmni cynhyrchu<br>• Brand sy'n bodoli eisoes e.e. masnachfraint neu ddeilliedig?<br>• Cynulleidfa/cefnogwyr posibl?<br>• Cyllideb – gwerthoedd cynhyrchu, sêr ayb<br>• Amserlen<br>• Rheoleiddio | RADIO:<br>• Cyd-destun sefydliadol:<br>  - Darlledwr gwasanaeth cyhoeddus/ masnachol/ cymunedol<br>• Cenedlaethol/lleol/byd-eang - rhyngrwyd?<br>• Cynulleidfa/cefnogwyr posibl?<br>• *Genre*<br>• Amserlen<br>• Rheoleiddio |
| FFILM:<br>• Perchenogaeth<br>  - prif/annibynnol?<br>  - cydgynhyrchiad?<br>• Cenedlaethol/byd-eang?<br>• Potensial ar gyfer dosbarthu<br>• Masnachfraint sy'n bodoli eisoes?<br>• Cyllideb – gwerthoedd cynhyrchu<br>• Sêr/cyfarwyddwr<br>• *Genre*<br>• Synergedd<br>• Rheoleiddio<br>• Dilynwyr/cynulleidfaoedd | CERDDORIAETH:<br>• Perchenogaeth<br>  - prif label/label annibynnol<br>• Band/artist<br>  - newydd neu sefydledig?<br>• *Genre*<br>• Synergedd/trawslwyfan<br>• Cyllideb – gwerthoedd cynhyrchu<br>• Llwyfannau digidol<br>• Rheoleiddio<br>• Dilynwyr/cynulleidfaoedd |
| PAPURAU NEWYDD:<br>• Perchenogaeth<br>• Papur safonol/papur poblogaidd<br>• Gwerthoedd newyddion<br>• Agenda newyddion<br>• Print/ar-lein<br>• Cynulleidfaoedd<br>• Rheoleiddio | CYLCHGRONAU:<br>• Perchenogaeth<br>  - Cyhoeddwr<br>  - prif ffrwd/annibynnol?<br>• *Genre* e.e. ffordd o fyw, cloer ayb<br>• Synergedd<br>• Perthynas â hysbysebwyr<br>• Print/ar-lein<br>• Cynulleidfaoedd<br>• Rheoleiddio |

© WJEC CBAC Ltd.

| HYSBYSEBU: | GEMAU CYFRIFIADUROL: |
|---|---|
| • Yn dibynnu ar y cynnyrch/gwasanaeth<br>• Brand - newydd/sefydledig?<br>• Perchenogaeth<br>• Asiantaeth hysbysebu<br>• Cyllideb<br>• Rheoleiddio<br>• Cynulleidfaoedd | • Perchenogaeth<br>• Brand sy'n bodoli eisoes neu fasnachfraint?<br>• Synergedd<br>• Llwyfan – ar-lein?<br>• Dilynwyr/cynulleidfaoedd<br>• Rheoleiddio<br>• Cyllideb |

© WJEC CBAC Ltd.

**B4. Trafodwch ymatebion cynulleidfaoedd gwirioneddol i'ch tri phrif destun. [30]**

Mae'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio fwy ar ymatebion gwirioneddol nag ymatebion damcaniaethol ac yn chwilio am yr hyn mae ymgeiswyr yn ei wybod am y rhain, ond eto mae lle i ymatebion sy'n gysylltiedig â theori a dylid marcio'r rhain ar sail teilyngdod.

Efallai bydd atebion yn cyfeirio at rai o'r pwyntiau canlynol:

- Mae testunau cyfryngol (yn gyffredinol) yn amlystyr
- Gall ymatebion ddibynnu ar leoliad cymdeithasol, proffiliau demograffig a seicograffig.
- Gall ymatebion gwirioneddol ddod drwy wefannau cefnogwyr, adolygiadau adolygwyr, fforymau cynulleidfaoedd/defnyddwyr, gwobrau, adroddiadau newyddion, pobl yn ffonio, pleidleisio ayb
- Mae'n ddilys cyfeirio at ymatebion personol/dosbarth ond dylid defnyddio enghreifftiau i'w cefnogi
- Cysylltiadau â defnyddio cyfryngau cymdeithasol – blogiau, *twitter*, *facebook* ayb
- Gellir cysylltu ymatebion â gwerthiant, ffigurau cylchrediad, nifer y gwylwyr, llwyddiant swyddfa docynnau ayb
- Cysylltiadau â Stuart Hall: dehongliadau dewisol, trechol, trafodedig a gwrthwynebol
- Gall ymateb ddibynnu ar y rhesymau dros ei "ddefnyddio" – cysylltiadau â damcaniaeth Defnyddiau a Boddhad
- Cysylltiadau â Damcaniaeth Llif Dau Gam.



© WJEC CBAC Ltd.